WG35.S.163

# MARWNAD,

ER

*COFFADWRIAETH O FARWOLAETH*

Y

**Parch. JOHN REYNOLDS,**

*TREGLEMAIS,*

GWEINIDOG Y BEDYDDWYR YN Y FELIN-GANOL,

*Swydd Penfro;*

Yr hwn a orphenodd ei yrfa, EBRILL y 13, 1824, yn 66 Oed.

GAN JOSEPH JAMES,

**Beulah.**

"Coffadwriaeth y cyfiawn sydd fendigedig."—SALMAU.

"Canys efe *oedd* wr ffyddlawn, ac yn ofni Duw yn fwy nâ llawer."—NEHEMIAH.

**Hwlffordd:**

ARGRAFFWYD GAN J. THOMAS, HEOL-FAWR.

1824.

*PRIS DWY GEINIOG.*

XR05314006

# MARWNAD, &c.

1 O SION! dihun o'th gysgadrwydd,
I wrando dy Arglwydd mewn pryd,
Mae'n uchel fynegu fod drygfyd,
Ac adfyd ar ddyfod ar fyd;
Y cyfiawn a gymmer ef ymaith,
Cyn d'od barnedigaeth i lawr,
Gorphwysant oll yn eu 'stafelloedd,
Oblegid fe'u carodd yn fawr.

2 Wel, daccw un etto ddiangodd,
O fyd y tymestloedd a'r poen,
At fyrddiwn o saint a merthyron,
A gwych apostolion yr Oen;
At Iesu pregethodd ef ganwaith,
'R hwn ydoedd ei obaith wrth fyw;
Pan farw, ca'dd ynddo dangnefedd,
A chyflawn orfoledd, gwir yw.

3 Y brawd wyf fi yma'n ei gofio,
A dagrau yn treiglo fy ngrudd,
Yw'r enwog frawd Reynolds, Treglemes,
I Gymru mae'r hanes yn brudd;
Pan glywo pob rhan o'r d'wysogaeth,
Bydd ynddynt fawr hiraeth diwâd,
Waith colli gwr oedd mor rhinweddol,
A'i enw'n wybodol trwy'r wlad.

4 Yn fore dechreuodd ar grefydd,
Ar gynnydd aeth beunydd i'r byw,
O'i wirfodd fe ddedwydd ymroddodd,
A gweithiodd yn ngwinllan ei Dduw;
Ni flinodd yn gwneuthur daioni,
Mawr oedd ei haelioni diffael,
Mae lluoedd a dystia'r dydd heddy',
Mai 'chydig o'i ail sydd i'w cael.

5 Er colli rhieni naturiol,
Yn ieuangc ryfeddol heb lai,
Fe brofodd fod Tad yr ymddifaid,
A'i ofal am dano'n parhau;
Er cwrdd â drwg-ddynion anffyddlon,
Morwynion a gweision di-râs,
Fe roddodd Duw iddo ddigonedd,
I osod ei haéledd i ma's.

6 Ië, megis y dedwydd gyfranai,
Ei gyfoeth gynnyddai bob dydd;
Mewn gweithred fe'n eglur ddangosai,
'R fath ydoedd rhinweddau gwir ffydd;
Sef, torri dy fara'r newynog,
Diwallu'r anghenog yn rhad,
Yn hyn 'roedd e'n *batrwn* cariadlon,
I holl gyfoethogion y wlad;

7 Yn hyn 'roedd ein brawd yn wr enwog,
A hynod gyfoethog at Dduw;
Trysorai drysorau'n nefoedd,
Lle gwed'yn fe'u cafodd, gwir yw;
Er hyny, pan ddaeth e' i borth angeu,
Nid neb o'i weithredoedd ei hun,
Oedd sylfaen ei uchel lawenydd,
Ond gwaed y Gwaredydd Duw-dyn.

8 Yn fore fe ddarfu ymroddi,
'N ei deulu i 'ddoli Duw'n brudd;
Yn wresog gweddïai'n y boreu,
Ni pheidiai ar ddiwedd y dydd;
Yn fachgen, cyn ugain, fe blygodd,
Gweddïodd, a cheisiodd ef Dduw;
A geisiodd, yn ddedwydd a gafodd,
A hyn a'i cynhaliodd e'n fyw.

9 Agorodd ei dy i bregethwyr,
I draethu'r ysgrythyr i ma's,

A hynod fel byddai fe'n toddi,
Wrth glywed cyhoeddi rhad râs;
Fe lynodd hyd ddydd ei farwolaeth,
Do, wrth yr athrawiaeth mae rhai,
Er's dyddiau yn ceisio'i chymylu,
Os nid ei diddymu'n ddilai.

10 Fe lynodd wrth grefydd y Bibl,
A'i chwilio fe'n gynil i gyd,
Heb lyngcu dych'mygion neb dynion,
Ië, gwych ddysgedigion y byd;
Gofynai, beth dd'wed yr ysgrythyr,
Mewn geiriau pur eglur a gwiw?
Ac felly iawn drefnai syniadau,
A'i lwybrau wrth eiriau Mab Duw.

11 Prif destyn ei holl weinidogaeth,
Hyd ddydd ei farwolaeth ef oedd,
Dwyn allan drysorau'r Gwaredwr,
A doniau'r Iachawdwr ar g'oedd;
Gan dystio fod digon yn hwnw,
I fyw ac i farw'n ddilai,
A'i waed ef yn ffynon rinweddol,
I olchi'n llwyr hollol bob bai.

12 Fe deithiai trwy Gymru ar brydiau,
Pregethai mewn dagrau bob dydd,
Trwy dd'wedyd am Grist a'i gyflawnder,
Canmolai gyfiawnder y ffydd;
Ac fel byddai'r achos yn gofyn,
'Doedd un dyn barotach nag ef,
I roddi i'r tlawd a'r anghenus,
Gwir 'wyllys yr Arglwydd o'r nef.

13 Er hyny ni soniai fe'n unmodd,
Am neb o weithredoedd y dyn,
Yn sylfaen ei gysur a'i obaith,
Ond rhad iachawdwriaeth ei hun;

Er galw ar ddynion o ddifri,
I wneuthur daioni'n ddina',
Ffieiddiai bob rhyw o bregethu,
F'ai'n gormod ddyrchafu'r dyn da.

14 Dyrchafu ei Briod a'i Brynwr,
Oedd ef fel pregethwr o hyd,
Gwir Broffwyd, Offeiriad, a Brenin,
Un teilwng o'r clodydd i gyd;
Mewn dagrau fe alwai'n ddiweniaith,
Bob un at dystiolaeth y gair,
Er rhoddi eu hollol ymddiried,
Yn mywyd a gweithred Mab Mair.

15 Bu ragor nâ deugain o flwyddi,
Yn dedwydd broffesu, gwir yw,
Heb lithro i haeddu geryddu,
Gan ddynion, ond nid gan ei Dduw;
Ni feiddiai fe honni perffeithrwydd,
Y'ngolwg ei Arglwydd a'i ri',
Dywedai mewn geiriau gwir eglur,
Y pena' bechadur wyf fi.

16 Fe ŵyr y pregethwyr yn helaeth,
Trwy'r holl dywysogaeth i gyd,
Ei gariad a'i hynod serchawgrwydd,
A'i ryfedd barodrwydd o hyd,
I roddi pob addysg ysprydol,
A chymmorth tra 'rheidiol i rai,
A fyddai dan deimlad o'u diffyg,
Am gael ei garedig fwynhau.

17 Mae lluoedd trwy'r gogledd a'r deheu,
A dystia'i rinweddau'n ddigêl,
Modd llonai fe'u cyrff a'u heneidiau,
Ei eiriau ddiferent fel mêl; [dwymnwch,
Nid dweud, ewch mewn heddwch, ym-
Heb weini diddanwch, wnai e',

Ond rhoddi o'r hyn a dderbyniodd,
Fel archodd ei Arglwydd o'r ne'.

18 Mor fuan y cafodd ei symud,
O'r *pulpid* i ganol y nef;
Dydd Mercher pregethai'n ffynon,
Dweud yno wrth ddynion 'roedd ef;
Nos Fawrth, yn dra chynnar, esgynodd,
Ehedodd i'r nefoedd i fyw,
I weled y Gwr a'i gwaredodd,
Yr hwn a'i cymmododd â Duw.

19 Tebygaf y gwelaf ei enaid,
Ar amnaid yn myned i'r ne',
Y'nghanol rhyw dorf o angylion,
Fel seren ddysgleir-lon i'r lle;
Diangodd rhwng dwylaw ei blentyn,
Ar edyn, heb ofyn a gai
Ef 'hedeg i gôl ei anwylyd,
I wynfyd uwch galar a gwae.

20 Pan ar ei glaf-wely dywedai,
Mewn geiriau a gofir gan rai,
Mab Duw, Iesu anwyl, yw nghyfaill,
Yn ebrwydd mi gaf ei fwynhau;
Mi roddes fy hun i'w gadwraeth,
Fy holl iechydwriaeth i yw,
Ce's ynddo ddigonedd i farw,
Ac eilwaith ddigonedd i fyw.

21 Fe welodd, pan 'hedodd i'r nefoedd,
Rhyw luoedd yn uchel eu cân,
Ië, rhai o'i hen frodyr nodedig,
Aeth yno rhyw 'chydig o'i fla'n;
Sef hen Domos Lewis, wr serchog,
A fu'n gyd-weinidog âg e',
Ac hefyd y brawd Dafydd Lewis,
A'i blaenai'n ddibetrus i'r lle.

22 Pan aeth ef i'r nefoedd,
Fe ganodd mor beraidd a neb yn y lle,
Y gân a ddechreuodd ef yma,
Gan ddweud Aleluia 'ddo fe;
I'r Iesu a'm carodd a'm golchodd,
Dywedodd yn gyhoedd ar gân,
Boed bythol glodforedd diderfyn,
Am gipio pentewyn o'r tân.

23 Ei weddw sy'n ddwfn alaru,
Boed hyn yn dy lòni di'n awr,
Myrdd uwch yw sefyllfa dy briod,
Nâ neb o drigolion y llawr;
Breninoedd 'merawdwyr daearol,
Ger bron y rhai nefol sy' fry,
Ni roddant braidd unrhyw gyff'lybiaeth,
O ddull a rhagoriaeth y llu.

24 Chwi blant y gwr dedwydd 'madawodd,
P'am sefwch o'ch gwirfodd yn ol,
Atolwg, dilynwch ei gamrau,
Pa fodd y cyfrifwch e'n ffôl;
Gwybyddwch pan ddelo awr angeu,
Bydd trymion feddyliau tra blin,
Can's yno daw pob anufudd-dod
I wasgu'r gydwybod ei hun.

25 Ti, Arglwydd, ddywedaist yn ddiau,
Daw'r plant yn lle'r tadau'n y man,
A'r merched ddont etto'n lle mamau,
I gynnal fy achos i'r lan;
O gâd i ni weled yn Sïon,
Ei feibion yn ffyddlon y'nghyd,
A'u gyddfau dan iau y Gwaredwr,
Heb brisio gwâg ddwndwr y byd.

26 Boed bendith y'mhlith yr holl bobl,
Sydd yn Felin-Ganol ar g'oedd,

Yn Solfach ac eang blwy' Dewi,
Disgyned fel defni'r un modd;
O tyfed, a ffrwythed ei lafur,
A hauodd e'n gywir i gyd,
A duger llu etto mewn attyn',
Hardd dyrfa o derfyn y byd.

---

## MARWNAD

Mrs. ELIZABETH REYNOLDS, TREGLEMAIS, yr hon a ymadawodd â'r byd hwn, MAI yr 20, 1824, pump Wythnos ar ol ei Phriod, y Parch. JOHN REYNOLDS.

1 CYN i'n loesion dyfnion laesu,
Trwm yw'r newydd ddaeth i ma's,
Fod chwaer anwyl wedi 'madael,
Gado'r rhyfel ar y maes;
Meistres Reynolds, ddynes ffyddlon,
'Hedodd ffwrdd o dwrf y byd,
At ei Phrynwr, lle mae'i phriod,
O fewn caerau'r nefoedd glud.

2 'Roedd hi'n wraig rinweddol hawddgar,
Dedwydd gy'mar i ei gwr,
Yn cyduno mewn haelioni,
Gwneud daioni'n llwyr ddistwr;
Serchus oedd hi i bregethwyr,
Efangylwyr teyrnas nef,
'Roedd ei zêl hi wneud daioni,
Yn mawr lòni 'i galon ef.

3 Yn ol ei gladdu, dros fyr ddyddiau,
Hi ymroddai â'i holl rym,
I 'chwanegu wneud daioni,
Ac ni laesai 'i zêl hi ddim;

'Gylch pum' wythnos ca'dd hi deithio,
Yn yr anial wrth ei hun,
Cyn cael gwys o lys y nefoedd,
I'w chyrchu i gôl ei Phrynwr cun.

4 Pan esgynai hi i'r nefoedd,
Hi ganfyddai yn y lle,
Lu o rai adwaenai hi yma,
Wedi ei blaeni hi'n ddible;
Y'mhlith eraill gwelai Reynolds,
Yn dysgleirio fel yr haul,
Ac yn canu'n llwyr ddiddagrau,
Odlau'r nef i Adda'r ail.

5 Mewn un aeliad 'roedd ei henaid,
Fel haul tanbaid dysglaer llawn,
Wedi 'i lanw â phob gorfoledd,
Ac â phob nefolaidd ddawn;
Dechreu canu, dechreu canmol,
Wnai hi 'nghanol torf diri',
Hyd nes caffom 'hedeg yno,
Rhaid *ffarwelo* mwy â hi.

6 Arglwydd grasol, dwg y meibion,
Rhai sydd bruddion yn y byd,
I debygu eu rhieni,
Caru'r Iesu fyth o hyd;
Gwna hwy'n golofnau addas,
Yn dy deml ar y llawr,
Ac addfeda hwy i'r deyrnas,
Lle mae'u tad a'u mam yn awr.

# COFFADWRIAETH

Am WILLIAM JAMES, Rhwymwr Llyfrau, ABERGWAIN, a fu farw EBRILL 28, 1824, yn 36 oed.

1 O, WILLIAM, fy mab, fe'n gadawodd,
Fe gefnodd dymestloedd y byd,
Ar aden ei enaid ehedodd,
I blith yr hardd luoedd dilid;
Gadawodd ni yn yr anialwch,
Yn nghanol y tristwch a'r poen,
Aeth adre' i ganu caniadau,
Yn ddiau i Dduw ac i'r Oen.

2 Tebygwn, pe gallwn ymddiddan,
Yn ddinam â William yn awr,
Gofynwn pwy welodd fe yno,
Adwaenai fe yma ar lawr;
Fe attebai'm gofyniad yn dawel,
Fy mrodyr yn uchel eu cân,
Aeth adre' i'r nefol drigfanau,
Ychydig wythnosau o'm blaen.

3 Y Brawd fu dan hoelion yn mlaenaf,
Prif wrthddrych hyfrydaf y nef,
Derbyniai fy enaid i'w fynwes,
A roddes i'w gadw 'ddo ef;
O'i amgylch 'roedd lluoedd aneiri',
O saint a merthyron pob oes,
Yn canu am gongcwest rhyfeddol,
Ac aberth rhinweddol y groes.

4 Y'mhlith y llu dysglaer mi welais,
Y brawd o Dreglemes cyn hyn,
Yn agos i'r Person a'i carodd,
A'i prynodd, a'i cànodd yn wyn;

Pan welais ef, ebrwydd crechwenais,
  Mi lemais, cyhoeddais i ma's,
Wel dyma ffrwyth dedwydd da odiaeth,
  Y ddwyfol athrawiaeth o râs.

5 Y gwir ddarfu it' frawd ei bregethu,
  A minnau ei gredu'n ddigryn,
Gras dwyfol, rhad, penarglwyddiaethol,
  Trwy iawn y dirprwyol Duw-dyn,
A roddodd in' obaith mewn bywyd,
  Nes dedwydd ddiangyd i'r nef;
I seinio nefolaidd Hosanna,
  Fyth, fyth, Haleluia iddo ef.

6 A welaist ti'n 'mhlith y dorf hwylus,
  Y brawd Dafydd Lewis ei hun?
Do, do, a'r hen frawd Tomos Lewis,
  Yn canu mor felus ag un;
A'r brawd William Griffith o Tabor,
  Aeth ragor nâ blwyddyn o'm bla'n,
Fel seren dysgleiriach nâ'r haulwen,
  Pwy draethai mor llawen eu cân.

7 Fy nhad, gwelais yno'r awduron,
  Ganmol'soch chwi'n ffyddlon bob pryd,
I mi'n gyfarwyddwyr tra eglur,
  I chwilio'r ysgrythyr o hyd;
John Brine, a Gill enwog, a enwaf,
  At rhai'n ychwanegaf i chwi;
M'Lean, a hen Booth anghydmarol,
  Fu'n fendith sylweddol i mi.

8 Mi welais 'nawr fod yr athrawiaeth,
  Gyffesais 'ddiffynais i o'r blaen,
Yn unig y'nghanol y nefoedd,
  Yn gosod y lluoedd ar dân;
Crist Iesu'n ddigonol Gyfryngwr,
  Dirprwywr a Phrynwr diffael,

Dios a diamod yn hollol,
Sydd yno'n drag'wyddol i'w chael.

9 *A*dnabum bob un o'r duwiolion,
O Abel oedd gyfiawn wr cun,
Hyd at y brawd Reynolds Treglemes,
Rhyfeddais pan welais fy hun,
Yn nghanol fath dorf o rai dysglaer,
*A*dawsant y ddaear o'm bla'n,
*A*r aeliad ehedais i'r canol,
Yn wrol dechreuais y gân.

10 Fy mhlentyn, ni allaf ddiodde',
Dy eiriau nefolaidd yn awr,
Mae peth o fawr bwysau gwlad gwynfyd,
Yn llethu fy yspryd i lawr;
Fy mab, hwn a frysiodd, diangodd,
Gadawodd ei dad etto'n ol,
O f' enaid, prysura dy gamrau,
*A*r fyr cei fyn'd adre' ar ei ol.

11 O *A*rglwydd, bendithia'r orchwyliaeth,
I'r dre' a'r gym'dogaeth i gyd,
'N enwedig i'w frodyr serchogaidd,
Sy'n wylo'n dra phruddedd o hyd;
Gwna hwy a'i chwiorydd yn ufudd,
I grefydd eu Harglwydd a'u Pen,
*A* gwna hwy'n rai ffyddlon trwy bywyd,
Diweddaf trwy dd'wedyd, *Amen.*

---

James Thomas, Argraffydd, Hwlffordd.